# Crynodeb Perfformiad Cynllun Corfforaethol 2017 i 2022

Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o ddata perfformiad a chyflawniadau prosiect ar draws pum mlynedd o Gynllun Corfforaethol 2017 i 2022 y cyngor.

This document is available in Welsh. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

# Cynnwys

Cynnwys 2

Am fwy o wybodaeth, neu i adael i ni wybod eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, gallwch gysylltu â ni: 3

Crynodeb o'r sefyllfa 4

Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion 5

Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da 10

Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid 15

Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd 21

Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny 27

## Manylion cyswllt a mwy o wybodaeth

Am mwy o wybodaeth, neu i roi gwybod i ni beth yw eich barn am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni:

**Drwy E-BOST:** timcynlluniostrategol@sirddinbych.gov.uk

**Dros y FFÔN:** 01824 706291

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh.

**Drwy'r POST:**

Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Cyngor Sir Ddinbych,

Blwch Post 62,

Rhuthun,

LL15 9AZ

Rydym yn croesawu gohebiaeth Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg.

### I gael y wybodaeth ddiweddaraf:

Hoffwch ni ar Facebook

Dilynwch ni ar Twitter

Ewch i wefan y Cyngor i gael gwybodaeth am y Cynllun Corfforaethol

Ewch i Borth Llais y Sir a chofrestrwch ar gyfer *Y Panel!*

Tanysgrifiwch i Newyddlen Llais y Sir

## Crynodeb o'r sefyllfa

Arfarnwyd y llinyn mesur ar gyfer pob blaenoriaeth yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad yr ydym wedi'i sefydlu. Arfarnwyd y prosiectau ar sail eu statws.

**Tai:** Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Da

**Clymu Cymunedau:** Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

**Cymunedau Cryf:** Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

Llinynnau mesur: Derbyniol
Prosiectau: Rhagorol

**Yr Amgylchedd:** Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

Llinynnau mesur: Da
Prosiectau: Rhagorol

**Pobl Ifanc:** Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

Llinynnau mesur: Blaenoriaeth ar gyfer gwella
Prosiectau: Da

## Tai: Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy’n diwallu eu hanghenion

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol, a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn – **wedi’i feincnodi’n lleol** | 67 | 45 | 26 | 139 | 154 | 222 | Rhagorol | Ydy |
| Y canran o drigolion sy’n dweud eu bod yn teimlo’n fodlon gydag argaeledd tai yn eu hardaloedd hwy (Arolwg Preswylwyr) – **Wedi’i Feincnodi’n Lleol** | Dim data | 42 | Dim data | Dim data | 30 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Y canran o drigolion sy’n dweud eu bod yn teimlo’n fodlon â safon tai yn eu hardaloedd hwy (Arolwg Preswylwyr) – **wedi’i feincnodi’n lleol** | Dim data | 52 | Dim data | Dim data | 40 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Nifer y cartrefi ychwanegol a ddarparwyd yn Sir Ddinbych – **Wedi’i** | Dim data | 196 | 124 | 242 | 435 | 422 | Rhagorol | Ydy |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **feincnodi'n lleol** | | | | | | | | |
| Y cyflenwad ychwanegol o dai cyngor a ddarparwyd | 2 | 4 | 4 | 10 | 14 | 13 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig | Ydy |
| Nifer y Cartrefi Gofal Ychwanegol a gaiff eu cefnogi gan y cyngor - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 74 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig | Ydy |
| Nifer yr eiddo gwag sy'n cael eu defnyddio eto (hen ddiffiniad) - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | ? | 151 | 181 | 179 | 184 | 196 | Rhagorol | Ydy |
| Nifer y bobl ar restr aros SARTH – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 1289 | 1148 | 1152 | 2139 | 2050 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Nifer cronnus y bobl a gartrefwyd oddi ar gofrestr SARTH | Amh | Amh | Amh | 328 | 67 | 261 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig | Na |
| Nifer y cartrefi sector preifat sydd wedi gwella o ran safon ac ansawdd o ganlyniad i ymyrraeth gan y Cyngor – **wedi'i** | Dim data | Dim data | 819 | 810 | 415 | 325 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **feincnodi'n lleol** | | | | | | | | |
| Nifer y bobl oedd ar y Gofrestr Angen Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer - **Wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 7 | 10 | 9 | 5 | 13 | Rhagorol | Ydy |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (dyletswydd Adran 66) – **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 54 | 65 | 58 | 57 | 52 | 42 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Canran yr aelwydydd digartref y sicrhawyd cartrefi iddynt (dyletswydd Adran 73) – **wedi'i feincnodi'n lleol** | 31 | 38 | 38 | 30 | 31 | 22 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Bydd 1,000 mwy o dai ar gael o fewn Sir Ddinbych, gan gynnwys:<br>170 o dai cyngor ychwanegol:<br>260 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol wedi eu darparu gan ddatblygwyr preifat a | Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol | Prosiect yn parhau, ond wedi'i ohirio. Erbyn diwedd cyfnod y cynllun corfforaethol, roedd 170 uned naill ai wedi eu cwblhau neu eu prynu, roedd contractau wedi eu dyfarnu ar gyfer eu hadeiladu, neu roeddent yn y cam dyluniad wedi'i ddatblygu. |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
| --- | --- | --- |
| Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. | | Hyd yma rydym wedi cwblhau 9 uned, prynwyd cyfanswm o 41, roedd contractau adeiladu wedi eu dyfarnu ar gyfer 90 arall ac roedd 30 yn y cam dyluniad wedi'i ddatblygu. |
| | Gweithio gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector preifat i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol. | Prosiect Ynghau. Cyflawnwyd a darparwyd mwy na 260 o dai fforddiadwy ychwanegol. Mae'r cam darparu tai fforddiadwy bellach yn symud ymlaen o fewn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. |
| Bydd yna lai o bobl mewn gofal preswyl drwy ddulliau gan gynnwys:<br>Bydd dros 90 o Dai Gofal Ychwanegol ar gael i breswylwyr ar draws Sir Ddinbych (63 yn Ninbych ac oddeutu 30 yn Rhuthun). | Tai Gofal Ychwanegol Dinbych<br>Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun (Cam 2) | 74 rhandy ar gael yn Ninbych. Gyda 35 uned pellach wedi eu cynllunio ar gyfer Rhuthun i ddechrau yn 2022. Mae Tai Gofal Ychwanegol Rhuthun yn parhau oherwydd oedi ac rydym yn gweithio ar ddyddiad cwblhau gwaith adeiladu erbyn diwedd Chwefror 2024. |
| Bydd mwy o bobl yn byw yn eu cartrefi eu hunain am hirach (gan gynnwys pobl gydag anghenion cefnogi) drwy fecanweithiau megis:<br>Wyth Uned Tai â Chymorth ychwanegol yng nghanol Sir Ddinbych i gefnogi oedolion gydag anghenion cefnogi lefel isel. | Tai Gofal Ychwanegol Dinbych | Mae 66 rhandy wedi eu darparu yn Ninbych i bobl dros 60 oed, gydag 8 uned ychwanegol i gefnogi oedolion gydag anableddau dysgu a chorfforol, cyfanswm o 74 uned gofal ychwanegol. Mae gwaith ychwanegol o amgylch tai arbenigol yn cael ei reoli fel busnes fel arfer. |
| Bydd mwy o bobl ifanc (hyd at 35 oed) yn gallu fforddio tai drwy fecanweithiau gan gynnwys:<br>Cynlluniau benthyciad adneuo morgais;<br>Cefnogi pobl ifanc i denantiaethau sefydlog. | Gweithio gyda'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector preifat i ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol. | Tai fforddiadwy i bobl ifanc yn datblygu drwy'r cynllun gweithredu Tai a Digartrefedd Strategol. |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Bydd 500 annedd gwag wedi eu dychwelyd i allu cael eu defnyddio a defnyddio ar gyfer anghenion o ran tai yn yr ardal. | Rhoi 500 o Gartrefi Gwag at Ddefnydd o’r Newydd | Mae’r prosiect wedi bodloni a rhagori ar darged y flaenoriaeth gorfforaethol o roi bywyd newydd i 500 o dai gwag, gan roi bywyd newydd i 695 o dai gwag ers 2017. Bydd y cynllun darparu Tai Gwag yn cael ei gyflwyno yn y Cynllun Gwasanaeth. |

## Clymu Cymunedau: Mae Cymunedau wedi eu cysylltu, ac mae ganddynt fynediad at nwyddau a gwasanaethau yn lleol, ar-lein a thrwy gysylltiadau cludiant da

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y trafodion a wneir ar y we, o'i gymharu â nifer llawn y trafodion a wneir gan ddefnyddio pob sianel fynediad - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 31 | 31 | 0 | 46 | 50 | 53 | Da | Ydy |
| Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 2.7 | 2.7 | 3.4 | 3.6 | 3.5 | 2.6 | Rhagorol | Ydy |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarthiadol B sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 5.8 | 5.1 | 4.7 | 5.2 | 4.9 | 3.8 | Rhagorol | Ydy |
| Canran y ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd/ ffyrdd dosbarthiadol C sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan **- wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 10.5 | 10.2 | 8.2 | 8.3 | 7.5 | 7.5 | Rhagorol | Ydy |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran o ardaloedd all dderbyn Cysylltiad Cyflym Iawn yn Sir Ddinbych (>30 Mbps) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 83 | 90.5 | 91.2 | 91.2 | 92.2 | 93.9 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Ydy |
| Canran o eiddo gyda Band Eang o 10 Mbps neu lai - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 10.1 | 7.1 | 6.6 | 4.9 | 4.4 | 3.95 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Ydy |
| Y ganran o signal symudol 4G ar ffordd (holl weithredwyr) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 3.5 | 14.7 | 48.0 | 45.6 | 49.8 | 50.6 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Ydy |
| Canran Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Sir Ddinbych ymysg y 10% o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Mynediad i Wasanaethau (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru). | Dim data | Dim data | 14 | Dim data | Dim data | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Canran yr oedolion (16 neu'n hŷn) sydd wedi defnyddio'r rhyngrwyd (Conwy a Sir | 76.9 | 86.8 | 87.7 | 89.8 | Dim data | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Ydy |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddinbych) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | | | | | | | | |
| Canran y ffyrdd a phalmentydd a ddifrodwyd a wnaed yn ddiogel o fewn y cyfnod targed (Diffygion Categori 1 yr ymdriniwyd â nhw o fewn yr amserlen) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 99.7 | 97 | 97.5 | 92 | 87 | 43 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Gwell cysylltiadau teithio ar draws y sir<br><br>Bydd y sawl â phroblemau dim mynediad yn ystyried teithio preifat yn llai a mwy o deithio llesol/cludiant cyhoeddus;<br><br>Mae yna gymorth gyda materion symudedd i'r sawl heb gar neu'n methu gyrru;<br><br>Mae yna rwydwaith teithio cyhoeddus wedi'i sefydlu wedi'i danategu gan deithio llesol;<br><br>Teithio gwell i ardaloedd allweddol ble mae cludiant yn gallu cefnogi'r Cynnig Twf (Abergele, Prestatyn, Llanelwy a Glannau Dyfrdwy);<br><br>Cludiant di-argyfwng i gleifion; cynlluniau ceir cymunedol a model trydydd haen yn fwy hyblyg ac yn darparu atebion mwy pwrpasol; | Galluogi pobl i deithio i'w gwaith, addysg a gwasanaethau yn haws | Cafodd y prosiect hwn ei ganslo yn ystod y cam achos busnes. Mae Brîff Prosiect newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer cynhyrchu Cynllun Cludiant Cynaliadwy ar gyfer Sir Ddinbych. |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Mae preswylwyr yn gallu defnyddio ffonau clyfar i gael mynediad i gludiant di-argyfwng ymatebol a phwrpasol i gleifion;<br>Bydd yna lif traffig mwy effeithiol, ardaloedd parc ac i gerddwyr yng nghanol trefi i gefnogi adfywio. | | |
| Gwell cysylltiadau teithio ar draws y sir.<br>Mae ein hisadeiledd ffyrdd a phontydd yn parhau'n hyfyw gan ein bod yn parhau i fuddsoddi ynddo. | Buddsoddi mewn ffyrdd a phontydd i gynnal isadeiledd hyfyw, cynaliadwy | Cwblhawyd y prosiect hwn yn 2017, mae cynnal a chadw ffyrdd a phontydd yn cael ei reoli'n weithgaredd busnes fel arfer o fewn y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol. |
| Band eang cyflym iawn a rhwydweithiau symudol ledled y sir (4G). Mae'r dulliau hyn yn cynnwys:<br>Defnyddio asedau gwasanaeth cyhoeddus i fynd i'r afael â bylchau mewn cysylltiad, ble bo'n bosibl.<br>Ein huchelgais erbyn 2022 yw cael:<br>Cysylltiad cyflym iawn 100% yn Sir Ddinbych (o leiaf 30 Mbps)<br>Dim eiddo gyda band eang 10 Mbps neu is<br>80% o signal ffordd 4G symudol | Darparu band eang cyflym iawn a rhwydweithiau symudol i bawb | Prosiect ynghau. Er bod argaeledd band eang cyflym iawn a 4G wedi gwella'n fawr ers 2017, mae argaeledd yn parhau o dan cyfartaledd y DU ac nid ydym wedi gallu cyflawni ein huchelgais. Rydym wedi gallu rhoi prosesau mewnol gwell ar waith i gefnogi seilwaith digidol. Fodd bynnag, er gwaethaf lobio, nid ydym wedi sicrhau darpariaeth gyflymach fesul cam yn y sir, ac mae heriau a rhwystrau sylweddol yn parhau. Rydym hefyd wedi methu sicrhau gwybodaeth neu ymrwymiad gan Openreach ar gyfer prosiect Nantglyn (a phentrefi cyfagos). |
| Bydd cyfran gynyddol o wybodaeth a gwasanaethau gyda dewis ar-lein a bydd mwy o drafodion y Cyngor yn digwydd ar-lein. | Sicrhau fod gwybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor yn hygyrch ar-lein. | Roedd canran trafodion a gynhelir drwy wefan y cyngor yn cynyddu o 31% (2017) i 53%. Mae gwefan Cyngor Sir Ddinbych yn bodloni safonau hygyrchedd ac yn anelu i wneud gwybodaeth a thrafodion mor syml â phosibl. |
| Holl drigolion yn fedrus ac yn hyderus yn cael mynediad at | Targedu'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod | Prosiect wedi'i gwblhau. Mae hyfforddiant wedi'i ddarparu; |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| nwyddau a gwasanaethau ar-lein.<br>Byddai’r rhai sy’n fwyaf tebygol o gael eu heithrio’n ddigidol yn cael cynnig hyfforddiant a chymorth i wella eu sgiliau mynediad digidol.<br>Mae llythrennedd digidol mewn cynnyrch a gwasanaethau ariannol yn faes blaenoriaeth i’w gefnogi. | wedi eu heithrio’n ddigidol fel bod ganddynt y sgiliau a’r modd i ddefnyddio gwasanaethau digidol | cyfeillion digidol wedi eu recriwtio; a chaledwedd wedi’i osod mewn llyfrgelloedd a chartrefi gofal preswyl. Mae mannau digidol unigol wedi eu gweithredu a bellach yn agored i’r cyhoedd i’w defnyddio ynghyd â gweithwyr proffesiynol. Bydd gweithdy rhithiol newydd yn parhau y tu hwnt i’r prosiect, gyda’r nod o fanteisio ar y dymuniad am brofiadau rhithiol ystyrlon a’r prinder sgiliau yn y maes hwn. |
| | Pwyntiau Mynediad Digidol | Cwblhawyd yn ystod cam achos busnes (2018) |
| Bydd nifer cynyddol o ddigwyddiadau yn cael eu llwyfannu yn y sir.<br>Bydd isadeiledd gwell mewn lle a fydd yn ei gwneud yn rhatach ac yn haws i gynnal digwyddiadau fel gosod datrysiadau sefydlog gwell (pwêr dros dro ac ati).<br>Wi-fi gwell/cyswllt symudol, pwyntiau gwefru neu gysylltedd teithiol yn helpu cymunedau sy’n trefnu digwyddiadau | Gwella isadeiledd i’w gwneud yn haws i gynnal digwyddiadau | Prosiect ynghau. Er gwaethaf yr oedi gyda’r prosiect oherwydd mesurau pellter cymdeithasol, mae’r prosiect wedi sefydlu rhestr o offer, fydd yn cael ei lansio yn yr haf 2022. Bydd cymeradwyaeth ddiweddar ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith lleol ar draws y sir yn helpu cymunedau lleol i gynllunio a llwyfannu eu digwyddiadau eu hunain yn rhatach ac yn haws. |

## Cymunedau Cryf: Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr amser ar gyfartaledd y mae oedolion (65 mlwydd neu hŷn) yn cael eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 1184 | 1195 | 993 | 970 | 1053 | 1028 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Ydy |
| Canran y bobl sy'n dweud eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor iawn pan oedd arnynt ei angen - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 95 | 81.7 | 88 | Dim data | Dim data | Dim data | Derbyniol | Na |
| Canran y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn cael cefnogaeth i barhau i ddal ati i ofalu - **wedi ei feincnodi'n lleol** | 89 | 56.5 | 55 | Dim data | Dim data | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a chymorth - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 92 | 86.7 | 84 | Dim data | Dim data | Dim data | Derbyniol | Na |

| **Llinyn Mesur** | **2017** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **Statws** | **Wedi gwella** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a wnaed yn ystod y flwyddyn | Dim data | 525 | 234 | 1224 | 878 | 390 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Canran y bobl sy'n cytuno "mae fy ardal leol yn le ble bydd pobl yn tynnu at ei gilydd er mwyn gwella'r ardal leol" - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 59 | Dim data | Dim data | 63 | Dim data | Da | Ydy |
| Nifer yr adnoddau sy'n fyw ar wefan Dewis Cymru - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 453 | 454 | 508 | 536 | 623 | 533 | Derbyniol | Ydy |
| Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio eu hardal leol - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 27 | Dim data | Dim data | 20 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig dro ar ôl tro, gan gynnwys achosion nad | 399 | 424 | 110 | 517 | 551 | 678 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig | Na |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| oeddynt yn droseddau (3 neu fwy mewn 12 mis, wedi'i fesur yn y flwyddyn hyd yma) | | | | | | | | |
| Nifer cronnus (yn y flwyddyn hyd yma) y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig dro ar ôl tro (3 neu fwy mewn 12 mis) | 145 | 93 | 14 | 97 | 115 | 83 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig | Ydy |
| Nifer y teuluoedd sydd wedi cael eu hadsefydlu o fewn Sir Ddinbych dan Brosiect Adsefydlu'r DU - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | Dim data | Dim data | 17 | 5 | 6 | Amherthnasol<br>Cyfrif yn unig | Amherthnasol |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Bydd grwpiau cymunedol yn ffynnu, ynghyd â cyngor a chymorth ymarferol ar gael i'w helpu i fod yn effeithiol.<br>Bydd gwefan Cynllunio Cymunedol ar gael i gefnogi arferion da o ran cynllunio, ymgysylltu, aliniad gydag amcanion strategol y sector cyhoeddus ac ati. | Cynllunio Cymunedol ac Adnodd Datblygu | Prosiect wedi'i gwblhau. Adnodd ar-lein am ddim i'w ddefnyddio gan gymunedau wedi'i greu fel cyfeiriadur gwybodaeth a darparu canllawiau ar sefydlu cynlluniau cymunedol. Roedd y prosiect hefyd yn cynnig amser a chefnogaeth i gymunedau oedd yn dymuno creu eu cynlluniau eu hunain a gwneud cais am gyllid, gan eu cyfeirio at ddarparwr grantiau addas. Mae gwaith yn parhau gyda busnes |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| | | fel arfer drwy ein Tîm Datblygu Cymunedol. |
| | Ffermydd Gwynt Datblygiad Cymunedol | Dechreuodd y prosiect ym mis Medi 2019 a chwblhawyd ym mis Mawrth 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Tîm Datblygu Cymunedol wedi darparu cefnogaeth i 253 o grwpiau. Mae gwaith yn parhau gyda busnes fel arfer. |
| | Prosiect Datblygu Cymunedol y Rhyl | Roedd y cyngor wedi cefnogi preswylwyr Gorllewin Y Rhyl i fod yn Gefnogwyr Cymunedol a gweithio gyda ni ar ein Rhaglen Strydoedd Mwy Diogel. Mewn partneriaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru a Clwyd Alyn Housing, roedd gardd fwyd gymunedol newydd wedi'i datblygu a 105 polyn dur gwrthstaen wedi'i gosod ar hyd ymyl palmant i leddfu pryderon am barcio o amgylch Gerddi Heulwen. |
| Bydd pobl yn fwy gwydn ac annibynnol oherwydd bod ganddynt fynediad i wybodaeth dda fydd yn eu helpu. Bydd Dewis Cymru yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r nod hwn. | Darparu gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd sy'n cefnogi annibyniaeth a gwydnwch pobl | Erbyn Chwefror 2020 roedd cynnwys a gweithgaredd y prosiect hwn wedi'i gynnwys mewn busnes fel arfer ar gyfer Gwasanaethau Llyfrgell a daeth y prosiect i ben. Mae Gwasanaethau Llyfrgell yn parhau i ddarparu gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd sy'n cefnogi annibyniaeth a gwydnwch. |
| | Gweithio tuag at gyflawni Cyngor Sir Ddinbych sy'n Deall Dementia. | Ers y gydnabyddiaeth gan y Gymdeithas Alzheimer, rydym wedi cwblhau y mwyafrif o weithgareddau ein cynllun gweithredu; rhannu arfer da gyda staff drwy fewnrwyd y staff, hybu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o ddementia ledled y cyngor; ymestyn a chysoni ein cysylltiadau gyda |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| | | chymunedau sy’n deall dementia a grwpiau ar draws Sir Ddinbych a’r rhanbarth Gogledd Cymru ehangach. Mae’r prosiect hwn nawr ynghau, ond bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o fewn busnes arferol y cyngor. |
| Bydd trigolion yn cael eu hysbysu a’u grymuso i ddylanwadu ar wasanaethau.<br>Bydd yna’r canlynol:<br>Panel dinasyddion;<br>Porthol ymgysylltu i reoli darnau newydd o ymgynghori, gan wneud adborth i ymgynghoriad yn orfodol; a galluogi preswylwyr i fynegi’r hyn a ffefrir ganddynt yn unol â’r ymgynghoriadau fyddai ganddynt ddiddordeb ynddynt.<br>Adnodd ymgysylltu i gefnogi arfer gorau. | Mae pobl yn cymryd rhan wrth lunio a gwella gwasanaethau | Mae gwybodaeth ddefnyddiol wedi’i chasglu gan gwsmeriaid drwy oes y prosiect hwn. Mae ymchwil blwyddyn 3 wedi’i ohirio tan yr haf. Mae polisi ymgysylltu drafft, fframwaith cefnogol, templedi ac adnoddau wedi’u datblygu ar gyfer cymeradwyaeth gan y cyngor newydd. Mae angen mwy o waith ar Strategaeth Gyfranogiad. |
| Bydd pawb yn teimlo’n fwy diogel yn eu cymunedau, yn arbennig y rhai sy’n dioddef o ganlyniad i cam-drin domestig. | Gweithredu i Leihau Cam-Drin Domestig | Daeth y prosiect i ben gyda llawer o ddarnau o waith pwrpasol wedi’u cwblhau. Er enghraifft, Polisi Cam-drin Domestig Cyngor Sir Ddinbych a hyfforddiant gorfodol i staff i gydnabod arwyddion o gam-drin a beth i’w wneud. Bydd gweithgaredd pellach o amgylch lleihau cam-drin domestig yn parhau gyda busnes fel arfer drwy gydol y gwasanaethau. |
| Bydd pobl yn gallu byw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnodau hirach.<br>Bydd:<br>Mwy o gefnogaeth i ofalwyr i’w galluogi i gynnal eu rolau gofalwr; | Cefnogi Gofalwyr yn Sir Ddinbych | Prosiect ynghau. Mae gwaith amlasiantaeth gwerthfawr wedi’i sefydlu drwy’r prosiect hwn, ac mae ein grŵp prosiect wedi cytuno i barhau gyda chyfarfodydd a monitro’r cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd. |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Mwy o dai hyblyg sy'n gallu cwrdd ag anghenion newidiol pobl;<br>Mesurau i helpu i atal unigrwydd ac ynysiad sy'n gallu arwain at fwy o alw am ofal. | | |
| Mae pobl ddiamddiffyn yn derbyn cefnogaeth mwy effeithiol gan sefydliadau sector cyhoeddus. | Bydd Timau Adnoddau Cymunedol / Sicrhau fod oedolion a phobl hŷn sydd angen iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn profi gwasanaeth di-dor. | Prosiect ynghau. Mae Timau Adnoddau Cymunedol wedi eu cydleoli yn y Rhyl, Prestatyn, Dinbych a Rhuthun. |

## Yr Amgylchedd: Deniadol ac wedi'i ddiogelu, gan gefnogi lles a ffyniant economaidd

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| STEAM Dim data Cyfanswm Effaith Economaidd Twristiaeth (£ miliwn) - **wedi'i feincnodi'n lleol** | 479 | 490 | 509 | 552 | 213 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Canran y stoc o dai cyngor presennol a rhai a gaffaelir (gwaelodlin 1 Ebrill 2017) yn cael sgôr EPC (Ynni) C neu well - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 28 | 33 | 40 | 46 | 53 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Ydy |
| Nifer y coed a blannwyd yn flynyddol i gynyddu'r gorchudd o goed yn y Rhyl a Dinbych - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 2500 | 5800 | 1010 0 | 1450 0 | 1800 0 | Rhagorol | Ydy |
| Nifer yr eiddo gyda llai o risg o lifogydd (1,000) - wedi'i feincnodi'n lleol | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data | Dim data | 1650 | Rhagorol | Ydy |
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? Dim data Cefn Gwlad – | Dim data | 87 | Dim data | Dim data | 85 | Dim data | Rhagorol | Na |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **wedi'i feincnodi'n lleol** | | | | | | | | |
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? Dim data Traethau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 70 | Dim data | Dim data | 69 | Dim data | Da | Na |
| Pa mor fodlon yw pobl gyda'u mannau agored lleol? Dim data Parciau – **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | 64 | Dim data | Dim data | 59 | Dim data | Derbyniol | Na |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd cadwyni cyflenwi - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | Dim data | Dim data | 22710 | 22202 | 31409 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd teithiau busnes - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | Dim data | Dim data | 550 | 126 | 163 | Rhagorol | Ydy |
| Cyfanswm y tunelli o garbon wedi'i allyrru (Corfforaethol) oherwydd staff yn teithio i'r gwaith - **wedi'i** | Dim data | Dim data | Dim data | 1848 | 1719 | 2045 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **feincnodi'n lleol** | | | | | | | | |
| Y ganran o dir mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau - **wedi'i feincnodi'n lleol** | Dim data | Dim data | Dim data | 37.56 | 38.14 | 41.0 | Derbyniol | Ydy |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| 70% o dai cyngor presennol ac wedi eu caffael ag o leiaf sgôr effeithiolrwydd ynni 'C'. | Gwella Effeithlonrwydd Ynni yn Nhai'r Cyngor | Hyd at Fawrth 2022, 53% o eiddo ardystiedig, i fyny 5.8% |
| Bydd ein holl dai cyngor newydd a fydd yn cael eu hadeiladu yn cyflawni graddfa ynni "Rhagorol'. | Datblygu Tai Cyngor Ychwanegol | Ni chwblhawyd unrhyw adeiladau cyngor newydd eto. Mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen. |
| Bydd nifer cynyddol o'r rugiar ddu, môr-wenoliaid bach, gwiberod, madfallod tywod a gwenyn. | Gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych. | Mae'r prosiect hwn bellach wedi tyfu i gynnwys dros 100 safle cyfeillgar i wenyn (gan gynnwys 11 o warchodfeydd natur ymyl ffordd) Mae'r safleoedd hyn yn gyfystyr â 35 o gaeau pêl-droed a reolir fel dolydd blodau gwyllt brodorol. Bydd camau pellach i wella bioamrywiaeth yn parhau gyda busnes fel arfer, ac yn fwy diweddar roedd planhigfa goed wedi agor gyda'r nod o gynhyrchu 5,000 o blanhigion blodau gwyllt brodorol a 5,000 o goed cynhenid y flwyddyn. |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| | Prosiect Rheoli Rhostir ac Atal Tanau Gwyllt | Mewn ymateb i'r tân yn Llandysilio yn yr haf 2018, roedd y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi llunio adroddiad cynhwysfawr i holl agweddau o'r tân. Roedd yn gweld yr angen am gyfathrebu gwell rhwng holl rhan ddeiliaid, rheoli'r rhostir yn well a dull rhagweithiol i atal mwy o danau gwyllt. Roedd Swyddog Rhostir wedi'i benodi ac mae'n parhau i gydlynu gweithgaredd a helpu tirfeddianwyr a phorwyr i reoli'r rhostir i wella ei iechyd yn gyffredinol. Mae hyn wedi cynnwys gwaith adfer yn Llantysilio; arolygon cyflwr; asesiadau risg tân ac hyfforddiant ar y cyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. |
| Bydd 18,000 yn rhagor o goed yn y Rhyl a Dinbych | Prosiect PLANT: Plannu coed mewn ardal ddinesig | Prosiect wedi'i gwblhau. Mae cwblhau'r prosiect PLANT wedi arwain at greu 80 erw ychwanegol o fan agored gwyrdd o ansawdd uchel sydd wedi'u lleoli'n strategol ger rhai o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. |
| | Cynnal 'asedau byw' Sir Ddinbych, eu gwella, eu diogelu a'u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol | Prosiect ynghau. Mae ein dealltwriaeth o 'asedau coed' Sir Ddinbych bellach yn llawer cliriach. Mae gwaith arolygu ac archwilio wedi cael ei gwblhau mewn sawl lleoliad ar draws y sir i ddatblygu cronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth ar rywogaethau, cyflyrau, lleoliadau a gofynion rheoli. Bydd y wybodaeth hon yn llywio ein strategaeth wrth symud ymlaen a sut rydym yn ymateb i faterion fel Newid Hinsawdd a Chlefyd Coed Ynn. |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Bydd 500 o eiddo wedi manteisio ar risg llai o lifogydd drwy’r Cynllun Dwyrain y Rhyl. | Cynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl | Cafodd y prosiect ei gwblhau ym mis Chwefror 2022 o flaen amserlen ac o dan gyllideb, a bydd yn diogelu 1,650 eiddo. |
| Mae darpariaeth ynni adnewyddadwy ar draws y sir wedi cynyddu. | Dim | Mae’n anodd i’r cyngor osod unrhyw reolaeth yn y maes hwn, ond rydym wedi gweld cynnydd mewn cynlluniau adnewyddadwy yn cael eu cyflwyno yn y 5 mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys ffermydd gwynt alltraeth pellach ac un datblygiad ar y Brenig. Mae yna gynllun posibl ar gyfer fferm solar ger Llanelwy a fferm wynt Awel y Môr (ger Conwy) yn cysylltu drwodd i Sir Ddinbych ar gyfer ei is-orsaf. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi datblygiad prosiect ynni'r llanw oddi ar arfordir Sir Ddinbych mewn egwyddor. Rydym hefyd yn edrych ar beth gellir ei annog drwy’r CDLl. |
| Mae allyriadau carbon o asedau’r Cyngor wedi lleihau gan o leiaf 15% erbyn 2022. | Lleihau allyriadau carbon o asedau’r cyngor. | Mae ffigyrau ynni 2019 i 2020 yn dangos ein bod wedi gostwng ein hallyriadau carbon 15.69% o’n llinell sylfaen 2017. Yn ystod 2020 i 2021, roedd y cyngor wedi lleihau ei gyfanswm Carbon Net 2.7% ers y flwyddyn flaenorol (er bod hon yn flwyddyn eithriadol). Gwaith parhaus i leihau ein hallyriadau carbon yn parhau drwy’r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol. |
| | Defnydd Gwell o Neuadd y Sir – System Rheoli Adeiladu wedi’i uwchraddio | Gweithredu parhaus o fewn y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol. |
| Mae gan y sir broffil uwch fel lleoliad i ymweld ag o, er mwyn | Datblygu Strategaeth | Prosiect wedi’i gwblhau. Twristiaeth wedi’i ddatblygu ar gyfer 2019 i 2022. Mae data |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| manteisio ar botensial economaidd Sir Ddinbych.<br><br>Mae gwariant o ran twristiaeth yn y sir wedi cynyddu. | Dwristiaeth i godi proffil Sir Ddinbych. | STEAM yn dangos bod effaith economaidd twristiaeth wedi codi o £490miliwn yn 2017 i £552 yn 2019. Gwelwyd gostyngiad o 61.4% i £213miliwn yn 2020. |
| Ychwanegiad i gefnogi Blaenoriaeth yr Amgylchedd | Datblygu opsiynau i leihau defnyddio plastig o fewn Cyngor Sir Ddinbych (Cam 1 a Cham 2) | Mae Cam 1, yn cynnwys plastig a ddefnyddir gan y cyngor wedi'i gwblhau. Cam 2, yn cynnwys plastig a ddefnyddir gan ysgolion, i gael ei ddatblygu drwy'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol |

## Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo, a bod ganddynt y sgiliau i wneud hynny

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | 95.1 | 94.9 | 94.5 | 94.9 | Dim data | Dim data | Rhagorol | Na |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | 93.8 | 93.7 | 93.5 | 93.4 | Dim data | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Canran o'r boblogaeth 18 i 24 oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith - **wedi'i feincnodi'n genedlaethol** | 4.4 | 4.2 | 6 | 6.2 | 12.4 | 6.4 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Canran y plant 4-5 oed sy'n bwysau iach neu dan bwysau - **wedi'i feincnodi yn genedlaethol** | 73.1 | 71 | 70.4 | 67.7 | 71.8 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Cyfartaledd Sgôr Pwyntiau Awdurdod Lleol CA4 Dangosydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru - **wedi'i** | Dim data | 25 | 30 | 33 | Dim data | Dim data | Rhagorol | Ydy |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **feincnodi yn genedlaethol** | | | | | | | | |
| Canran y disgyblion yn defnyddio Agweddau Disgyblion atynt eu Hunain a'r Ysgol - PASS sy'n ymateb yn gadarnhaol yn erbyn teimladau disgyblion am yr ysgol - **wedi'i feincnodi yn lleol.** | Dim data | 86.2 | 85.9 | 86.1 | 87.2 | Dim data | Da | Ydy |
| Canran y plant yn cyflawni 5 TGAU A*i C (Lefel 2, Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Cymraeg (iaith 1af) neu Saesneg, Mathemateg a Llenyddiaeth Saesneg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd, yn erbyn y canran wnaeth gyflawni'r safon disgwyliedig ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) – wedi'i feincnodi yn genedlaethol | 61 | 54 | 52 | 55 | Dim data | Dim data | Derbyniol | Na |
| Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd gwaith i bobl | Dim data | 19 | Dim data | Dim data | 19 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |

| Llinyn Mesur | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | Statws | Wedi gwella |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ifanc ar ddechrau eu gyrfa - **wedi'i feincnodi yn lleol** | | | | | | | | |
| Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | 28 | Dim data | Dim data | 26 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Canran y preswylwyr sy'n fodlon bod yna gyfleoedd hamdden sy'n apelio at bobl ifanc - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | 50 | Dim data | Dim data | 40 | Dim data | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Na |
| Y nifer o ysgolion yn darparu addysg drwy addasrwydd a chategorïau cyflwr C a D - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | 36 | 34 | 30 | 27 | 27 | Blaenoriaeth ar gyfer gwella | Ydy |
| Y cynnydd canrannol yng nghyflogau pobl ifanc sydd wedi cofrestru â'r Prosiect Bwrsariaeth Cyflogaeth - **wedi'i feincnodi yn lleol** | Dim data | Dim data | 17 | 26 | 17 | 16 | Rhagorol | Ydy |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| Pobl ifanc yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial. Byddem yn disgwyl gweld gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd ddim yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig ar ddiwedd yr ysgol uwchradd os oeddent wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig ar ddiwedd yr ysgol gynradd. | Monitro a chefnogi agweddau cadarnhaol gan ddisgyblion at eu hunain a'r ysgol | Prosiect wedi'i gwblhau. 87% o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol o ran eu teimladau am yr ysgol. Mae effaith Covid-19 a'r newidiadau i'r cwricwlwm yn cyflwyno heriau sylweddol ar gyfer mesur cyrhaeddiad. Mae'r cyngor yn gweithio'n agos gyda GwE i fonitro safonau ysgolion yn barhaus. |
| Adolygu darpariaeth addysg yn Ninbych, y Rhyl a Llangollen o dan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt). | Moderneiddio Addysg | Cwblhau Band A, gan gynnwys o fewn y Cynllun Corfforaethol hwn, pedair ysgol gynradd newydd ar dri safle, ysgol newydd 3-16, Canolfan Iaith Gymraeg ac estyniadau/gwelliant i Ysgol Bro Cinmeirch. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar yr estyniad ar ddarpariaeth Gofal Plant Oaktree yn y Rhyl. Roedd gwaith wedi dechrau ac yn parhau ar gyfer Band B, ar ôl derbyn cynnig rhaglen gan Lywodraeth Cymru. |
| Mae pobl ifanc yn wydn ac mae ganddynt y sgiliau cywir i ffynnu, yn cynnwys sgiliau ymarferol, ariannol ac emosiynol. | Monitro a chefnogi agweddau cadarnhaol gan ddisgyblion at eu hunain a'r ysgol / lles | Prosiect wedi'i gwblhau. 87% o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol o ran eu teimladau am yr ysgol. |
| | Iechyd a Lles – Maeth a Sgiliau Coginio | Bydd cyllid prosiect yn dod i ben ym mis Gorffennaf. Mae 21 o ysgolion wedi cymryd rhan yn y rhaglen, gyda 25 aelod o staff wedi eu hyfforddi i Ddod i Goginio. |
| Mae gan rieni fynediad i'r gefnogaeth gywir fel y gallant roi'r dechrau gorau i'w plant mewn bywyd. | Cefnogi Rhieni yn Sir Ddinbych | Prosiect wedi'i gwblhau a busnes fel arfer. 130 o ymarferwyr a 48 lleoliad yn Sir Ddinbych wedi cael budd o gyfleoedd hyfforddiant. Cyn ac |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| | | ar ôl y cyfyngiadau Covid-19, derbyniodd 139 o rieni hyfforddiant wyneb yn wyneb, ond yn fwy arwyddocaol, mae 2,362 wedi cofrestru ar-lein. |
| Mae cymorth a chyngor ar gael i bobl ifanc wneud y dewisiadau cywir i'w paratoi am y gwaith maent yn dymuno ei wneud, a theimlo’n hyderus a’u bod yn cael cefnogaeth dda i ddechrau gweithio.<br>Mae mentora a chyfleoedd gwaith o safon dda ar gael i bobl ifanc i'w helpu nhw i ddatblygu eu sgiliau. | Barod am Waith | Prosiect ynghau. Cyn Covid-19, roedd digwyddiadau gyrfa llwyddiannus wedi eu cynnal yn rheolaidd ledled y sir gyda phresenoldeb gref gan ysgolion / disgyblion a chyflogwyr. Nid yw wedi bod yn bosibl darparu digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig. |
| | Cynllun Dechrau Gweithio Sir Ddinbych | Prosiect yn parhau (o fewn targed). Mae cyfanswm o 110 lleoliad wedi eu canfod a’u hysbysebu gan y Tîm Dechrau Gwaith hyd yma. Mae cyllid ar gyfer y prosiect hwn wedi’i ymestyn tan Rhagfyr 2022. |
| | Bwrsariaeth Cyflogaeth Pobl Ifanc | Prosiect ynghau. 20 o geisiadau wedi eu cefnogi, gan arwain at gynnydd cyfartalog o 20% yng nghyflogau’r ymgeiswyr. |
| Gall pobl ifanc ddod o hyd i waith sy’n apelio atynt ac sy’n cyd-fynd â’u sgiliau. | Parth Technoleg: Llety Symud Ymlaen Sector Twf | Prosiect wedi cau yn y cam achos busnes - dim cyllid. |
| | Cyflwyno gofod cydweithredu ar gyfer mentrau newydd yn hen adeilad Costigans, y Rhyl | Prosiect wedi'i gwblhau (Mai 2021). Gofod newydd ar gyfer entrepreneuriaid wedi’i gyflawni. |
| | Canolbwynt Buddion Cymunedol | Prosiect yn parhau (o fewn targed). Buddion Cymunedol bellach wedi eu cynnwys o fewn gwaith y cyngor, cyflawni buddion ymarferol, gan gynnwys lleoliadau gwaith. Mae’r Ganolfan hefyd wedi |

| Uchelgais | Prosiect | Llwyddiant |
|---|---|---|
| | | helpu i sicrhau cyfleoedd caffael cydweithredol. |